Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 04.06.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol : Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Wyn Thomas, Malcolm Howells, Arwel Nicholas, Carolyn Smethurst, Elfed Davies, Cynghorwr Sîr, Irfon Jones
Ymddiheuriadau : Mali Lloyd

Rhif Agenda	**Nodiadau/ Pendefyniadau**	**I'w weithredu gan**
Cofnodion	Cafwyd y Cofnodion yn gywir gan WT ac eiliwyd y cynnig gan AN	
Materion yn Codi	Safle Bws – Ar hyn o bryd y Cyngor Sîr sydd yn eu glanhau, yn yr hydref ac yn ddi dâl. Glanhau y rhai cauedig ond nid y rhai agored. Weithiau mae trigolion sydd yn byw gerllaw'r Safleoedd yn eu glanhau, os bydd gwir angen. Carthffosiaeth gerllaw Bont Newydd – mewn llaw Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol – 17.06. Penodwyd WT a MH I fynychu ar rhan y Cyngor Toiledau Llanpumsaint – barn y Cynghorwyr: MH – neb wedi dweud bod rhaid eu cadw ar agor ac efallai nad oes llawer yn eu ddefnyddio beth bynnag AN – mae'n debyg mae pwll ariannol di-waelod y byddent CS – nid yw CSG wedi penderfynnu eu cau eto, felly cadw nhw ar agor tan bod rhaid iddynt gau. Consuriaeth yw cynnig Cyngor Sir Gâr WT – nid Cyngor Llanpumsaint sydd yn eu cau; ddim yn fodlon eu mabwysiadu. Angen penderfynnu naill ai eu cadw neu eu cau ED – prin yw'r amser I gasglu gwybodaeth, cynnal trafodaeth ac I ddod I benderfyniad CS – awgrymwyd cynnal Cyfarfod Cyhoeddus; oes gweithredu ar y syniad I fod? WT – ni gynnigiwyd ac eilio'r cynnig felly nid oes Cyfarfod wedi ei drefnu Pleidlais: Nid yw Cyngor y Gymuned am fabwysiadu'r Cyfleusterau. Canlyniad – Unfrydol o blaid y cynnig Heol y Graig – wedi ei ddiogelu Rhwystredigaeth cael atebion I geisiadau. Yn y gorffennol, rhaid oedd danfon pob gohebiaeth at Gwasanaethau Democrataidd; fyddai'r Adran honno yn dosbarthu'r neges ag yn monitro yr ymateb. Beth am ddanfon yr ohebiaeth at Bennaeth Adran hefyd? Seremoni Cyhoeddu'r Eisteddfod – tocynnau am ddim I ddau Gynghorwr. WT a DJ yn derbyn y cynnig.	

Gohebiaeth	Cyngor Cymuned Bronwydd yn gwahodd Llanpumsaint I ymuno mewn trefnu sesiwn hyfforddi ar Gynllunio, Un Llais Cymru er mwyn rhannu'r gost o £400. Barn y Cynghorwyr – angen gwybod pa nifer o Gynghorau arall fyddai'n cymeryd rhan; mae'r gost yn fawr I Gynghorau bach. Pryd byddai'r sesiwn yn cael ei drefnu? Cynhadledd Un Llais Cymru – neb am fynychu Elusen Black Rock – WT wedi cysylltu â Chonwil. Llythyr wedi dod oddi wrth Comisiwn Elusennau ynglyn a'r Adroddiad Blynyddol. Angen cwblhau ffurflen ar-lein. Gwneud gwaith I lanhau'r afon ger llaw Gwili Terrace	Clerc Clerc
Cynllunio	Cais Dolau wedi ei ganiatau	
Materion Ariannol	Angen gwneud cais am ad-daliad TAW	Clerc
UFA	MH – Cyflwr gwael Bont y Felin Llinell wen ar ben heol yr Esgair Tŷ Nant – angen cyfarfod arall ar y safle. Awgrymwyd CS a'r Cynghorydd Irfon Jones CS – caravan Penrhiwfach – angen tynnu sylw'r Adran Gynllunio I'r sefyllfa Map y Pentref; angen ei gywiro a'I ddanfon nôl at CS Cyngh. IJ – Llif dŵr lawr Rhiw Cwpers ac I fewn I Llwynhelyg DD – Cyflwr yr heol gerllaw Glyn Neuadd WT – pwy sy'n gyfrifol am Gronfa Jenny Eirian nawr? Awgrymyd yr enwau canlynol; Elfyn Lewis, Dorian Thomas, Arwyn Thomas, Margaret Griffiths, Yr Ysgol DJ – clawr llifddwr yn yr heol gerllaw Festri Nebo yn swnllyd.	

Cafwyd yn gywir : ……..
(Cadeirydd)

Dyddiad : ……..

Cafwyd yn gywir : ……..
(Ysgriennydd)

Dyddiad: ……